## Tomatos John Gower a Sŵ Arwel Emlyn

Erys eleni yn y cof heb os am ei dristwch. Diolch felly, yn y misoedd anodd, rhyfedd rhain, fod ychydig o rialtwch diniwed ar gael i lonni'r galon.

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, aeth y teulu ati i ad-ennill darn o dir (ein heiddio ni gyda llaw!) cyferbyn â'r ty yn Rhuthun. Border llethrog digon gwamal yn glwm o wreiddiau mewn pridd tywodlyd, â choed ffawydd tenau tal yn tyfu ar hyd un ymyl, a lôn dawel Pen Y Maes ar hyd yr ymyl arall. Er gwaethaf ambell i olwg amheus ar ddechrau'r gwaith wrth geisio cael pâl i dreiddio mwy nag ychydig fodfeddi, yn araf deg llwyddwyd i gael gwared â chryn dipyn o'r chwyn, a throi'r tir mewn mannau o leiaf. Dros amser ymuniodd ein cymdogion yn y fenter. Wrth deulu Cartrefle derbyniwyd wilberi di-ben-draw o bridd gwych, ac oddiwrth teulu Hafan cafwyd sawl planhigyn, a briallu lliwgar (sy'n blodeuo byth) yn eu plith. Ymddangosodd dwy hwyaden blastig un bore fel addurn. I goroni'r cyfan, daeth dros ddwsin o blanhigion tomatos oddiwrth John Gower (gyda llaw, a gasglodd swm sylweddol i Ysbyty Rhuthun drwy werthu planhigion amrywiol). Adeiladwyd terasau a ffrâmiau i roi'r cyfle gorau i'r tomatos ffynnu, a'u harddangos yn eu gogoniant dros yr haf. Anodd iawn oedd gan John dderbyn bod tomatos gwylaidd "ochor draw" yn tyfu gystal â'i blanhigion ef yn y ty gwydr. A dyma ddechrau'r tynnu coes: chwedl John oedd mai MiracleGro oedd yr achos. Wna i ddweud dim byd!




Ac yna wrth Arwel Emlyn daeth englyn:

***Gris wrth ris mae gardd i'w thrin - yn codi***
***Dan y coed cynefin;***
***Mae garddwr glew fel dewin***
***A honno'n ardd fel hen win.***

Tua'r un adeg, rownd y gornel o Ben Y Maes yng ngardd gefn dawel Arwel, dechreuodd anifeiliad syreal Mabinogaidd-eu-naws ymddangos. Siraff enfawr â'i wddf yn estyn dros y llwyni i'r cymylau yn gyntaf, wedyn eleffant coediog a'i draed mewn welingtons duon. A hipopotomws â chroen carped trwchus, ac yn olaf oll Kung Fu Panda ei hun!



Wrth gwrs, rhaid oedd i rywun ymateb mewn cynghanedd:

***Yn y man, delwedd Panda du a gwyn***
***Daw a gwên reit smala;***
***Hynod un mewn cwmni da***
***Yn heddwch Eden Adda.***

Llifodd yr englynion am rai wythnosau yn canmol yr ardd a'r garddwr, yr anifeiliaid a'u creawdwr! Am fwy o fanylion, cysylltwch!

Byddwn yn falch o weld diwedd diflastod 2020. Ond diolch, yn arbennig er hynny, i gymdogion da ymhob man am rannu'r wên ac ambell air o gyfeillgarwch.